# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS CHWEFROR 2020:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, am 7y.h. nos Fercher y 12fed o Chwefror, 2020.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Iwan Harding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp.
***Ward Peris:*** Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Iola Owen

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher yr 8fed o Ionawr, 2020 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: KMJ / HS.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Wal y Fynwent:***
Roedd y gwaith wedi dechrau ar y wal ac roedd y coed wedi eu torri i gyd mewn da bryd. Cafwyd pris rhesymol iawn am dorri'r coed o gymharu a'r prisiau blaenorol.
***2. Goleuadau Nadolig:***
Roedd y trydanydd DO wedi anfon ei ddanfoneb ond heb gynnwys ei lafur ei hun. Penderfynwyd rhoi cyfraniad iddo tuag at ei gostau..
***3. Cynllun Cynefin LleChi:***
Yn ôl BH a KMJ mae'r cynllun i ddigideiddio a chreu arddangosfa o hen luniau'r pentref yn debyg o gael cefnogaeth ariannol y Cynllun ac roedd syniadau eraill yn cael eu trafod. Roedd KMJ yn awyddus i weld lle i bobl eistedd gyda'i gilydd i sgwrsio, gyda dwy neu dair mainc yn wynebu eu gilydd. Roedd amryw yn amheus a fyddai lle i bobl leol gan fod cymaint o ymwelwyr yn dod yma.
***4. Biniau Halen:***
Adroddwyd i'r biniau halen gael eu llenwi i gyd gan Gyngor Gwynedd, hyd yma chafwyd dim anfoneb am y gwaith.
***5 CG - Llifogydd yn cau'r ffordd yn Nantperis:***
Roedd nifer o swyddogion i fod i ddod i'r cyfarfod hwn i drafod toiledau a llifogydd, ond rai dyddiau'n ôl dywedwyd nad oedd y dyddiad yn gyfleus. Gobeithir trefnu eto yn fuan. Yn dilyn nifer o gyfnodau gwlyb eithriadol a thraeniau wedi cau mynegodd aelodau y Cyngor ei diolch i'r Cynghorydd Kevin Morris Jones am ymdrech bersonol i glirio rhai ohonynt yn ystod y tywydd mawr.

**5 GOHEBIAETH:**
***1. Swyddfa Archwilio Cymru:***
Ebost am ymgynghoriad ar drefniadau archwilio yn y dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol Cymru. Y bwriad o eleni (o 2020-21 ymlaen) ydi cynnig rhaglen archwilio tair blynedd sydd wedi ei chynllunio i fodloni cyfrifoldebau statudol wrth ddarparu lefel ddigonol o sicrwydd archwilio am gost rhesymol. Dyddiad cau'r ymgyhgoriad ydi'r 19eg o Fawrth, 2020.
Hefyd cafwyd nodyn am adroddiad blynyddol Archwiliadau Cynghorau Cymuned eleni. Yn ôl yr adroddiad mae gan lawer o gynhgorau le i wella.
***2. Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri 2020 - 2025:***
'Dweud eich Dweud'. Mae'r ymgynhoriad ar agor rhwng y 3ydd o Chwefror a'r 13eg o Fawrth, 2020.
***3. National Grid:***
O fis Mawrth ymlaen bydd NG yn cynnal arolygon ar gyfer llwybr newydd i ddwyn trydan o Orsaf Bŵer Dinorwig i ganolfan ddosbarthu'r Grid ym Mhentir er mwyn newid y ceblau presennol sydd wedi eu gosod ers 1970au. Gan nad oes modd i'r Grid Cenedlaethol weithio'n effeithiol heb drydan yr orsaf bydd angen creu llwybr newydd o geblau cyn adnewyddu y rhai presennol. Yn ôl y llythyr y bwriad ydi creu cyn lleied o drafferth ag y gellir wrth wneud y gwaith. Wedi'r arolwg eleni credir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau y flwyddyn nesaf.

**6 CYNLLUNIO:**
**Cyngor Gwynedd:**
• **C19/1222/15/DT -** *Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i ochr yr eiddo, codi porth ar yr edrychiad blaen, ynghyd â dymchwel ac ailgodi modurdy domestig* **-** Crud yr Awel, 5 Ffordd Tŷ Du, Llanberis - Dim sylw.
• **C20/0071/15LL -** *Cais ar gyfer is-rannu tŷ preswyl presennol yn ddau dŷ a chodi estyniadau ochr unllawr to fflat, ynghyd a chreu mynedfa gerbydol newydd a newidiadau i'r fynedfa gerbydol bresennol* **-** Merddyn Coch, Stryd Ceunant, Llanberis - Dim sylw.

**7 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ionawr, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £23,096.82 **Cyfrif Cadw**: £5,361.91

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:** £10,770.00

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/12/2019 a 28/01/2020:** £360.91

Cynnig ac eilio: IH / BH

**8 Y FYNWENT:**
Yn un o'r stormydd mawr diweddar daeth Hysbysfwrdd y Fynwent i lawr, pydredd yng ngwaelod y pyst oedd yn dal y bwrdd oedd yn gyfrifol. Dywedodd y Clerc y bydd yn trefnu i'w drwsio.

**9 CYFARFOD NESAF:**
Yn Y Ganolfan, Llanberis. Nos Fercher **<u>Mawrth y 18fed</u>**, 2020 am 7yh.

Rhys ap Gwilym
Arwyddwyd a chafwyd yn gywir…………………………………..……Cadeirydd

Dei Tomos 18fed o Fawrth, 2020.
Clerc ………… ………………...……Dyddiad ……………….............................

***2/2***